

## ASSIGNMENT DETAILS AND FEEDBACK

### SOUTH WEST WALES CENTRE FOR TEACHER EDUCATION

*Sections marked with \* should be completed by module lead*

|                                                       |                                                                                                                               |                                                  |          |
|-------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|----------|
| Student name:                                         | Sali Lloyd                                                                                                                    | Student P number:                                | 1700277  |
| Programme: *                                          | PGCE Primary                                                                                                                  |                                                  |          |
| Module: *                                             | The Enquiring Teacher                                                                                                         | Module Level (6 or 7):*                          | 7        |
| Module code: *                                        | M7X2152                                                                                                                       | Contribution to Overall Module Assessment (%): * | 100%     |
| Module Lead:*                                         | Catherine Morgan                                                                                                              |                                                  |          |
| Assignment Title:*                                    | Write a critical and analytical essay that discusses your practitioner research 'lesson study' in relation to a chosen field. | Assignment No (x of x):*                         | 1/1      |
| Start date:*                                          | 09/01/18                                                                                                                      | Submission deadline:*                            | 16/04/18 |
| Return date of provisional marks & written feedback:* |                                                                                                                               |                                                  |          |

|                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |       |          |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|----------|
| Referencing:                                                                                 | In the main body of your submission you must give credit to authors on whose research your work is based. Append to your submission a reference list that indicates the books, articles, etc. that you have read or quoted in order to complete this assignment (e.g. for books: surname of author and initials, year of publication, <u>title of book</u> , edition, publisher: place of publication).                                                                               |       |          |
| Submission:                                                                                  | <p><b>All assignments must be submitted to Turnitin unless otherwise instructed by the Lecturer.</b></p> <p><b>Note:</b> the Turnitin version is the primary submission and acts as a receipt for the student. <b>Late submission of the electronic version of the assignment will result in a late penalty.</b> Penalties for late submission: Up to one week late, maximum grade D. Over one week late, Refer. Only the Extenuating Circumstances Panel may grant an extension.</p> | Date: | 16/04/18 |
| Module lead to tick to indicate if a hard copy version of the assignment must be submitted.* |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |       | YES      |
|                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |       | S        |

NO



## MARKING CRITERIA AND STUDENT FEEDBACK

This section details the assessment criteria. The *extent* to which these are demonstrated by you determines your mark. The marks available for each criterion are shown. Lecturers will use the space provided to comment on the achievement of the task(s), including those areas in which you have performed well and areas that would benefit from development/improvement.

| Common Assessment Criteria Applied                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Grade |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|
| <b>1. Subject Knowledge and Understanding (which includes using research-informed literature and knowledge and understanding of the subject)</b><br><br>Extent of research and/or own reading, selection of credible sources, application of appropriate referencing conventions. Extent of knowledge and understanding of concepts and underlying principles associated with the discipline. |       |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |       |
| <b>2. Intellectual Skills (Analysis)</b><br><br>Analysis, evaluation and synthesis; logic, argument and judgement; analytical reflection; organisation of ideas and evidence                                                                                                                                                                                                                  |       |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |       |
| <b>3. Pedagogic and Professional Applications (Practical Application and Deployment)</b><br><br>Deployment of pedagogic methods, materials, tools and techniques; application of concepts; formulation of innovative and creative solutions to solve problems. Attributes in professional practice: individual and collaborative working                                                      |       |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |       |
| <b>4. Key Transferable Skills</b><br><br>Deployment of appropriate media; presentation and organisation.                                                                                                                                                                                                                                                                                      |       |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |       |

# Student Self Evaluation Form

This section repeats in brief the common assessment criteria detailed on previous pages. The *extent* to which these are demonstrated by you determines your mark. Using these criteria, tick the box that best indicates the level of achievement you feel you have achieved with regard to each of them.

| Common Assessment Criteria Applied                                                                                                                  | REFER                    |                          | D                                   | C                                   | B                        | A                        |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
|                                                                                                                                                     | OUTRIGHT FAIL            | UNSATISFACTORY           | SATISFACTORY                        | GOOD                                | VERY GOOD                | EXCELLENT                |
| <b>1. Subject Knowledge and Understanding</b><br>(which includes using research-informed literature and knowledge and understanding of the subject) | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/>            | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| <b>2. Intellectual Skills (Analysis)</b>                                                                                                            | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/>            | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| <b>3. Pedagogic and Professional Applications (Practical Application and Deployment)</b>                                                            | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/>            | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| <b>4. Key Transferable Skills</b>                                                                                                                   | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/>            | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |

| PLEASE COMMENT ON AREAS IN WHICH YOU FEEL THAT YOU HAVE PERFORMED WELL | PLEASE COMMENT ON AREAS YOU FEEL THAT YOU NEED TO DEVELOP                 |
|------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| Teimlaf fy mod wedi adfyfrio yn dda ar fy ngwaith.                     | Teimlaf nad wyf wedi gwneud digon o ymchwil cyn gychwyn ar yr ymchwiliad. |

|                            |            |             |          |
|----------------------------|------------|-------------|----------|
| <b>Student's Name</b>      | Sali Lloyd | <b>Date</b> | 12/04/18 |
| <b>Student's Signature</b> | SCLLOYD    |             |          |

## **Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwil**

Mae'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod eisiau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2016). Mae'r camau cyntaf ym meithrinfeydd ysgolion Cymraeg yn holl bwysig, ac yn adfywio'r Gymraeg yn y genhedlaeth newydd. Mae addysg Gymraeg yn gallu fod yn her ieithyddol i blant yn Ne Cymru, yn enwedig pan nad yw'r Cymraeg eu hiaith gyntaf. Honnwyd gan Collier (1995) mae'n cymryd 7 i 10 blynedd neu'n fwy i blentyn caffael ar iaith (nad yw'n frodorol) i'r un lefel trafodaethol â phlentyn sy'n defnyddio'r iaith yn reddfol. Y mater sydd o ddiddordeb i mi yw'r strategaethau caffael iaith sydd yn cael ei defnyddio ym Meithrinfeydd ysgolion De Gorllewin Cymru. Ymchwiliwyd defnydd o ailadrodd o fewn y dosbarthiadau wrth addysgu geirfa newydd, ac ychwanegwyd defnydd o'u hiaith gyntaf i esbonio a chyfarwyddo. Pwrpas yr ymchwil ansoddol yma yw asesu'r technegau gorau o fwydo iaith ym man cychwyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r gobaith yw gallu hidlo'r technegau ac adnabod eu defnydd yng nghaffael iaith er mwyn gallu cynyddu defnydd o'r iaith ymysg y plant. Erbyn diwedd yr ymchwil hoffwn wybod beth sydd yn gweithio gorau i fy nosbarth i, a sut mae cyrhaeddiadau plant fy nosbarth i yn gymharu i blant ysgol wahanol.

## **Cyd-destun yr ymchwil**

Trafodais gyda fy mhartner am ein profiadau yn addysgu mewn dosbarthiadau meithrin, a thrwy trafod canfyddom bod strategaethau iaith y ddwy ysgol yn wahanol. Penderfynom i edrych ym mhenodol ar y gwahanol strategaethau, gan ystyried galluoedd iaith disgwylidig y plant. Ein cwestiwn ymchwil yw: 'Sut allwn ni wella defnydd y disgyblion o eirfa Cymraeg drwy dechnegau modelu o fewn dosbarth Cyfnod Sylfaen?'. Y bwriad oedd i ddefnyddio'r trefniadau roedd y plant yn gyfarwydd â wrth ddysgu iaith ac arsylwi ei lwyddiant.

Lleolir y ddwy ysgol mewn ardaloedd cyferbyniol iawn. Lleolir ysgol A gwledig ar gyrion Caerfyrddin gyda 293 o blant, darparir addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Addysgir disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Lleolir ysgol B ar gyrion y ddinas Abertawe, darparir eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg i'w 535 o ddisgyblion lleol. Mae lleoliadau yr ysgolion yn bwysig oherwydd natur yr ymchwil; am ein bod yn edrych ar gaffaeliad yr iaith Gymraeg. Fe fydd defnydd y plant o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol yn cael effaith ar eu gallu i gaffael ar eirfa newydd o fewn y dosbarth.

Yn ôl Stats Cymru (2011) mae'r canran o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Nghaerfyrddin yn 43.9%, sydd dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol (19%). I'r gwrthwyneb, sylwir mae'r canran yn Abertawe yn 11.4%, sydd yn dylanwadu canlyniadau ein ymchwil. Glygir felly mae'r tebygolrwydd bod y plant yn mynd i glywed defnydd o'r iaith yn eu bywydau pob dydd yn fwy yn ardal Caerfyrddin, a llai yn Abertawe. Ar ôl ystyried hynny, a thrafod fel tîm am ein profiadau yn y ddwy ysgol, cytunwyd bod ein disgwyliadau ni o Gymraeg y plant yn wahanol. Cytunwyd felly, mai cynefindra'r plant o'r iaith Cymraeg yn mynd i fod yn wahanol a phenderfynom ddefnyddio'r ffeithiau fel sail i'n hastudiaeth gwers.

## **Trosolwg byr o lenyddiaeth berthnasol**

Wrth ddarllen ac ymchwilio i wahanol strategaethau dysgu ail-iaith, roedd yna ddwy strategaeth yn ymddagngos yn gyson fel strategaethau llwyddianus. Roedd y dechneg ailadrodd a'r defnydd o famiaith y ddisgyblion i gynorthwyo ac esbonio yn rhywbeth cafon ni ein hyfforddi i wneud yn y ddwy ysgol wahanol. Teimlais fy mod i yn defnyddio strategaeth ailadrodd a thechneg brechdan

y mwyaf wrth addysgu mewn ysgol B, a theimlodd fy mhartner mae'r dechneg ailadrodd oedd yr un defnyddiodd mwyaf mewn ysgol A. Edrychais ym mhellach ar y strategaethau yma wrth addysgu ail-iaith.

Disgrifir y technegau o ailadrodd wrth addysgu iaith gan Rosenthal (2000) fel ffocws ar ffurfio iaith yn lle cyfleu ystyr ac addysgu sut i'w ddefnyddio yn drafodaethol. Roedd hyn yn bwysig i ni ystyried wrth gynllunio'r gwersi; ydyn ni'n disgwyl i'r plant allu ffurfio brawddeg, neu adrodd geirfa? Portreadwyd ailadrodd yn negyddol o ran caffaeliad iaith gan Rosenthal, ond nodwyd mai ailadrodd yw'r strategaeth sydd yn galluogi dysgu heb gyfieithu, sydd yn ei gwneud yn berthnasol iawn i ysgolion Gymraeg, gan nad yw'n ddelfrydol i ddefnyddio'r Saesneg yn ddefodol. Cefnogwyd ein penderfyniad i ddewis ailadrodd fel strategaeth i'n hastudiaeth gwers gan Rosenthal. Serch hynny, yn ôl hanes yr Ail Ryfel Byd, ailadrodd a drilio yw'r strategaethau mwyaf addas er mwyn addysgu iaith yn gyflym (Rosenthal, 2000), a gellir dadlau nad yw'n cynnig buddiadau hirdymor. Awgrymir nad yw'n gymwys ar gyfer dysgu iaith yn rhugl, serch hynny gellir dadlau ym meithrin nid yw rhuglder y bwriad.

Bathwyd y term 'techneg frechdan' gan Dodson (1967) i ddisgrifio'r proses o ddefnyddio mamiaith y dysgwyr i gyfateb i'r iaith newydd. Enghraifft o sut caiff hynny ei defnyddio yn y Gymraeg yw "Moronen, ... Carrot, ... Moronen", mae'r Saesneg yn cael ei defnyddio llaw yn llaw gyda'r Gymraeg i enghreifftio'r eirfa mewn iaith gyfarwydd. Honnwyd gan Dodson mai'r dechneg ddwyieithog yn gwneud y dasg o sefydlu'r dosbarth yn yr iaith newydd yn fwy hawdd am ei bod yn cyfleu ystyr a phatrwm iaith Cymraeg. Roedd y dechneg yma yn cael ei defnyddio yn aml o ddydd i ddydd yn ysgol B, ac felly roedd y plant yn gyfarwydd iawn gyda chlywed yr esboniad neu gyfieithiad Saesneg wrth ddysgu geirfa newydd. Disgwylir i'r dechneg hon fod yn fwy buddiol i ysgol B, lle nad yw'n debygol bydd y plant yn gyfarwydd â geirfa Cymraeg, ac yn fwy tebygol o adnabod geirfa Saesneg.

Mae'r dechneg o ddrilio ac ailadrodd yn un gyffredin iawn wrth ddysgu ac addysgu iaith, bydd yr athrawes yn modelu'r iaith yn fanwl gywir ac yn eglur ac yn gofyn i'r plant dynwared y ffurfiant am yn ôl a'i hailadrodd. Dadleuir gan Finocchiaro (1974) mai dynwared ac ailadrodd yn galluogi'r plant dysgu i ddefnyddio'r iaith yn gyfathrebol heb gyfieithu. Golygir rhoi'r eirfa newydd mewn i gyd-destun perthnasol trwy ffurfio brawddegau a chyfathrebiad naturiol. Mewn dosbarthiadau meithrin rydym yn ailadrodd a drilio trwy roi pethau i gyd-destun yn gyson gan ddefnyddio gwrthrychau ac ystumiau, er enghraifft gellir dynwared mynd i'r siop i ymarfer a chofio geirfa gwahanol fwydydd. Roedd fy mhartner a minnau yn gytûn bydd dynwared mynd i'r siop yn arfer syml a chyfarwydd i bob plentyn yn naill ysgol, a phenderfynom ei defnyddio fel rhan o'r gwersi. Yn ôl Reppy ac Adames (2000), mae'r dechneg ailadrodd yn strategaeth addysgeg glywedol, lle bu'r plant yn dysgu trwy glywed defnydd o'r eirfa. Disgwylir i'r ynganiad a'r gallu i'w ddefnyddio gwella trwy ddulliau ailadrodd, yn ogystal â chofio'r geirfa.

Honnwyd gan Schwab a Lew-Williams (2016) mai plant sy'n cyfathrebu trwy iaith wedi cyfeirio at blant yn buddio o gael mwy o eirfa ym mhllentyndod hwyrach. Golygir bod y rhai sydd yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith gartef gydag eraill a chlywed eraill yn ei ddefnyddio yn canfod amrywiaeth ehangach o eirfa dros eu bywydau. Trafodwyd gan Schwab a Lew-Williams (2016) ymchwil gan Cristia (2013) oedd yn datgan mae'r arferion mydryddol ac ailadroddus wrth ddefnyddio iaith lafar rhwng plant yn ffafriol wrth weithio gydag ac addysgu'r blynyddoedd cynnar. Ychwanegwyd gan Shukla, White a Aslin (2011) taw mydryddiaeth dros ben llestri sydd yn dylanwadu cydnabyddiaeth eiriau ym mhllant bach y mwyaf. Deallaf o'r ymchwil mai addysgu

iaith i'r blynyddoedd cynnar yn broses o ddynwared ac adloni'r plant er mwyn sicrhau profiadau cofiadwy a fydd yn ymddangos yn eu hiaith drafodaethol.

O'r ymchwil canfodwyd mai ailadrodd a dynwared yn dechnegau llwyddiannus wrth addysgu'r blynyddoedd cynnar, ac felly bwriadom ei ddefnyddio er mwyn cynyddu defnydd o' geirfa newydd o amgylch y dosbarth. Yn ogystal rydym wedi canfod bod yna wahaniaeth eang yn y defnydd o Gymraeg yn y ddwy ardal. Gan ddilyn yr hyn a dywedwyd gan Hart a Risely (1995) dylai'r plant yn ardal Caerfyrddin caffael ar yr eirfa yn well na'r rhai o ardal Abertawe gan eu bod yn fwy tebygol o glywed yr iaith a defnyddio'r iaith tu hwnt i'r ysgol. Honnir mai'r plant sy'n clywed mwy o iaith gan oedolion yn cael banc o eirfa ehangach am eu bod yn clywed yr iaith mewn lleoliadau amrywiol (Hart a Risely, 1995). Gall lleoliad ein hymchwil felly cael effaith ar yr hyn darganfyddir o ran gallu'r plant i gaffael ar iaith.

Gan wybod mai lleoliad y ddwy ysgol yn debygol o amharu ar ein dewis o strategaethau ar gyfer yr astudiaeth gwers, edrychais ym mhellach i ba raddau byddem yn disgwyl i blant ysgol B ymateb yn wahanol i'r strategaethau. Gan ystyried hynny, edrychais ar adroddiad Estyn yr ysgolion i ganfod canran y plant sydd yn mynychu o deuluoedd Cymraeg. Datganwyd gan Estyn mae gan Ysgol B 'lleiafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref' (2017) ac mai 90% o blant ysgol A yn siarad Saesneg cartref (2011). Nid yw'r adroddiadau Estyn yn dangos gwahaniaeth cadarnhaol rhwng y ddwy ysgol, serch hynny adroddwyd gan Gathercole a Thomas (2009) disgwyliadau ieithyddol plant dwyieithog i gymharu ag unieithog. Yng Nghymru mae'r plant sydd yn mynychu ysgol o gartrefi Cymraeg yn cael sgiliau ieithyddol Saesneg llai na rhai sydd yn mynychu o deuluoedd di-gymraeg (Gathercole a Thomas, 2009). Rydym wedi penderfynu pennu disgwyliadau gwahanol i'r ddwy astudiaeth gwers o ran y gallu i gaffael ar eirfa newydd trwy ddefnyddio technegau cynorthwyol. Ni fydd safonau'r iaith yn hafal yn y ddau ddosbarth, a byddem felly yn ystyried hynny wrth ddadansoddi'r data.

### **Esboniad o'ch cynllun Astudiaeth gwers**

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yw ymchwil astudiaeth gwers, sydd yn fath o ymchwil gweithredol byd eang a ddaeth yn boblogaidd yn y Deyrnas Unedig yn y 90'au. Mae ymchwil rhyngwladol yn tystio mai astudiaeth gwers yn broses dysgu proffesiynol pwerus iawn sydd yn hyblyg ac yn addasadwy i wahanol addysgwyr ac achosion (Xu a Peder, 2015). Gan fod y fethodoleg yn un mor addasadwy nid yw pob darn o ymchwil a ddefnyddiwyd yn unfath, ac felly nid oes angen i'w ddilyn yn gaeth. Gelwir y fethodoleg yn 'derm ymbarél i'r addasiadau amrywiol' gan White a Lim (2008) am ei fod yn gallu edrych yn hollol wahanol mewn gwahanol gyd-destunau. Ystyr ymchwil astudiaeth gwers yw arbrofi a chymharu strategaethau pedagogaidd, caiff ei defnyddio gan yr athro dosbarth wrth addysgu. Penderfynom ddefnyddio'r fethodoleg yma am ei bod yn fodd addas o asesu strategaethau dysgu. Yn ogystal, fe fydd hi'n helpu ein datblygiad proffesiynol fel athrawon i werthuso ein dulliau a dadansoddi canlyniadau gwersi pob dydd. Mae hi'n arfer dda i athrawon o bob graddfa er mwyn sicrhau llwyddiant a datblygiad cyson.

Y dulliau o gasglu data a ddefnyddiwyd yn ystod yr astudiaeth gwers oedd arsylwi, grwpiau ffocws a nodiadau adfyfyrion. Yn ogystal defnyddiwyd taflenni gwaith yn ystod y wers a chadwyd fel tystiolaeth o'r dasg ffocws. Yn ystod yr astudiaeth gwers nid oedd yr arsylwr yn cyfrannu at y wers, dim ond cymryd nodiadau yng nghefn y dosbarth oedd angen iddi wneud. Yn ystod y cyfweiliad roedd y ddau ymchwilydd yn bresennol, serch hynny, yr athrawes dosbarth oedd yn gyfrifol am ofyn y cwestiynau. Adfyfyriond y ddwy athrawes ar ôl y wers addysgwyd a chadwyd fel tystiolaeth.

Mae'r dull arsylwi yn un defnyddiol iawn, yn enwedig wrth arsylwi tueddiadau ac ymddygiad o fewn gwrs. Roedd hi'n bwysig iawn i ni fel tîm o ymchwilwyr i sicrhau dilysrwydd yn yr hyn a gofnodwyd. Cynlluniwyd taflen arsylwi a oedd yn sicrhau bod cysondeb yn yr arsylwi er nad oedd yr un ymchwiliwr yn arsylwi pob tro (Gweler atodiad 1). Honnwyd gan Cordes (1994) mai data a ddaeth o arsylwadau dim ond yn ddibynadwy os yw'r arsylwr, a'r data canfuwyd ohoni, yn ddiduedd ac yn cael ei wneud yr un ffordd. Penderfynom felly, i drafod yn drylwyr pa fath o sylwadau hoffwn ni gasglu, a gwnaethom ni sicrhau nad oedd yna wahaniaethau yn ein techneg. Roedd hefyd gennym ni'r cyfle i drafod yng nghanol yr arbrawf, hynny yw, rhwng ymweliad ysgol A ac ysgol B, a chafodd yr ail arsylwr y cyfle i bori dros yr hyn a wnaeth yr arsylwr gyntaf gyda'r daflen arsylwi.

Defnyddir grwpiau ffocws er mwyn darganfod rhagor o wybodaeth o'r plant am y wers a sgiliau dysgu iaith. Cynhaliwyd y grŵp ffocws yn y dosbarth pan fu athrawon eraill o'n cwrdd ac yn gallu clywed. Cynlluniwyd cwestiynau cyn cynnal y grŵp ffocws i sicrhau ein bod yn gofyn y cwestiynau perthnasol ac yn casglu'r data delfrydol (Gweler atodiad 2). Mae'r defnydd o gwestiynu mewn grŵp ffocws yn galluogi ymchwil mwy dilys a gwir (Vaughn, Schumm a Sinagub, 1996), gyda phlant, gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn gyfforddus gyda'i ffrindiau. Dewiswyd y sampl o 3 plant yn nail ysgol i gymryd rhan yn y grŵp ffocws ar sail eu defnydd o'r Gymraeg, gartref ac yn yr ysgol. Dewiswyd plentyn 1 o naill ysgol fel rhywun sydd yn siarad Cymraeg y fwyaf yn y dosbarth, a phlentyn 3 sydd â dim Cymraeg gartref a'r lleiafrif yn y dosbarth, a phlentyn 2 yn y canol.

Mae'r data a gasglwyd yn ddata ansoddol sydd yn 'cynnig golwg ar y cyd-destunau naturiol y mae athrawon a dysgwyr yn gweithio ynddynt' ac felly datgelir yr argraff fwyaf cywir (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae data ansoddol yn ddefnyddiol iawn pan yr ydych yn cynnal astudiaeth gwrs gan eich bod yn ymchwilio i arferion eich hun a phlant eich dosbarth chi, ac felly nid oes angen cyffredinoli. Serch hynny, mae'r astudiaeth cynhaliwyd yn yr achos yma yn gweithio gyda phlant ifanc iawn, ac efallai nad yw'r sgrifellwr yn gallu cofnodi yn union beth mae'r plant yn ceisio dweud. I oresgyn hynny, penderfynom drafod fel tîm ar ôl pob rhan o'r ymchwil i sicrhau ein bod ni'n cytuno dros y nodiadau cymerir. Yn ogystal, roedd diduedd y sgrifellwr yn gadarnhaol gan nad oedd yna unrhyw berthynas rhwng yr arsylwr a'r plant caiff eu harsylwi, felly nid oedd y data a gynhyrchir yn gynnwys unrhyw fias wedi i ni fel ymchwilwyr trafod y nodiadau.

Roedd yr athrawes yn cynnal y wers a'r dasg prif ffocws, ac nid oedd ganddi'r amser i nodi unrhyw sylwadau arwyddocaol yn ystod y wers. Felly, ar ddiwedd y wers roedd yr athrawes yn gallu nodi unrhyw sylwadau neu bwyntiau o ddiddordeb i'r ymchwiliad, ac adlewyrchu ar y wers gan ddefnyddio ffurflen BWA. Mae hi'n bwysig myfyrio ar y wers yn ystod yr arsylwad gyntaf er mwyn i ni fel ymchwilwyr gwerthuso a gwella ein perfformiad. Roedd hi hefyd o werth i gymharu sylwadau'r athrawes gyda sylwadau'r arsylwr, er mwyn gweld gwahaniaeth y safbwyntiau hynny yw, cefn y dosbarth a'r addysgwr. **Mae'r ffurflen BWA yn cynnwys cyfuniad strategaethau llwyddiannus o fyfrio gan amrywiaeth o ddamcaniaethwyr.** Defnyddiwyd y ffurflen i adlewyrchu ar unrhywbeth a oedd yn taro'r athrawes neu yn peri chwilfrydedd. Erbyn diwedd y wers gyntaf cawsom ni sgwrs i drafod a gwerthuso er mwyn gwneud unrhyw newidiadau os oedd rhaid erbyn yr ail wers. Serch hynny, nid oedd newidiadau yn amlwg nes i'r ail wers gorffen.

## **Ystyriaethau moesegol**

Mae'n hanfodol wrth weithio mewn dosbarth gyda phlant i wneud ystyriaethau moesegol. Roedd ein hymddygiad trwy gydol yn dilyn canllawiau BERA a'r UWTSD Research ethics and integrity

code of practice (2017) er mwyn wneud yn siŵr nad ydw i yn difrodi'r perthynas rhwng yr ysgol a'r brifysgol. Yn gyntaf oll, nid yw cynnwys yr ymchwiliad yn gynnwys unrhyw enwau, hynny yw'r plant neu'r ysgolion. Mae hunaniaeth y cyfranogwyr yn cwbl anhysbys trwy gydol yr ymchwil. Yn ogystal roedd rhaid ystyried cyflwr y plant yn ystod yr arbrawf, felly, ni gynhwysion ni unrhyw elfennau sensitif yn y wers na'r grŵp ffocws. Ni chododd unrhyw faterion yn ystod yr arbrawf.

Yn ystod yr arbrawf nid oedd yna unrhyw ofidion emosiynol wedi codi, megis teimlad o straen wrth gymryd rhan, diffyg hyder wrth gyfranogi neu ormodedd o bwysau emosiynol. Serch hynny, gwnaethon ni yn siŵr bod y plant yn gwybod eu hawliau a'u bod yn gallu tynnu allan ar unrhyw adeg. Pwysleision ni cyn, yn ystod ac ar ôl pob rhan o'r ymchwil bod gan y cyfranogwyr hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Yn ogystal, gwelon ni hi'n arfer bwysig i'r cyfranogwyr gwybod eu pwrpas yn ystod yr ymchwil ac felly esboniodd yr athrawon yn naill astudiaeth gwers beth oedd pwrpas yr ymchwil.

Cynhaliwyd pob darn o'r ymchwil yn yr ystafell dosbarth, lle'r oedd yna blant eraill ac athrawon yn gyson. Nid oedd yr ymchwilydd byth ar ben eu hun chwaith, er mwyn sicrhau nad oedd y plant yn gallu ein cyhuddo o anweddu. Roedd y grwpiau ffocws yn ymwybodol nad oedd unrhyw tâl neu fuddiant iddynt o'r ymchwil. Nid oedd yna unrhyw drafferthion gyda'r plant a chafodd eu dewis i'r grŵp ffocws, na chwaith y rhai na chafodd eu dewis.

Cafodd llythyron eu hanfon i bob un disgybl yn y dosbarthiadau i hysbysu'r ymchwiliad a gofyn am ganiatâd i gymryd rhan yn yr ymchwil gan eu rhieni. Trwy gydol yr ymchwil dilynwyd ni prosesau diogelu plant yr ysgol a'r brifysgol, gan ystyried ein proffesiynoldeb a'n rôl fel ymchwilydd.

### **Astudiaeth Gwers a dadansoddiad**

Ar gyfer yr ymchwiliad, cynlluniwyd gwers iaith syml yn cyflwyno geirfa newydd (neu lai cyfarwydd) i'r plant er mwyn wir fesur llwyddiant y strategaethau. Paratowyd union yr un wers i'r ddwy ysgol, ond ychwanegwyd strategaeth 'brechdan', lle defnyddir geirfa ac esboniadau Saesneg, mewn ysgol B.

Fel y gellir gweld yn y cynllun wers (Atodiad 4), nod y wers oedd i 'gaffael ar eirfa Cymraeg newydd'. Thema'r wers oedd 'Beth sydd yn y fasged siopa?' a chynlluniwyd iddynt ddysgu enwau'r cynhwysion cawl oedd yn y fasged siopa. Roedd prif dasg y ddwy wers yn unfath. Roedd ofyn i'r plant dynwared eu bod yn mynd i'r siop llysiau i brynu'r cynhwysion. Roedd disgwyl iddynt ddewis cynhwysyn a gallu adrodd y frawddeg;

*"Prynais Cenhinen yn y siop"*

a'i hadrodd tair gwaith gyda llysiau gwahanol. Roedd y llysiau defnyddiwyd yn amrywio o rai cyffredin efallai bydd rhai yn gwybod yn barod, megis 'moron/ moronen' neu 'taten/ tatws' i rai efallai nad oedd yn gwybod, megis 'cennin/ cenhinen' neu 'erfin/ erfinen'. Adroddwyd gan bawb beth oedd yn eu basged siopa i weddill y grŵp. Roedd gan y ddwy athrawes y llysiau go iawn yn y fasged siopa er mwyn i'r proses o ddynwared bod yn fwy hwyliog iddynt. Yna gofynnwyd iddynt liwio'r lluniau o'r llysiau prynon nhw ar daflen waith (gweler atodiadau 5 a 6).

Ar ddiwedd y wers yn y ddwy ysgol death y plant i gyd nôl i ymgynnull ar y carped a gweithion ni fel dosbarth i ddychwelyd y llysiau i'r fasged siopa. Roedd gofyn iddynt allu geni pob un a'u hail-adrodd cyn ei ddychwelyd.

Rhwng y ddwy wers nid oedden wedi newid unrhyw ddeunyddiau neu strwythurau. Roedd y ddwy wers yn defnyddio'r un fasged a llysiau a'r un taflenni gwaith. Ar ôl y gwersi, llenwyd ffurflen adfyfrio gan yr athrawes er mwyn nodi unrhyw bryderon neu sylwadau cafodd yn ystod y wers. Codwyd wrth adfyfrio bod y plant yn cymhlethu yn ystod y grwpiau ffocws oherwydd eu diffyg deall yr hyn a ofynnwyd gan yr athrawes, ond nid oedd modd newid y cwestiynau yn ormodol heb amharu ar ddilysrwydd yr astudiaeth. Roedd y cwestiynau yn hir wyntog ac yn anodd i'r plant ddeall ac ymateb i. Penderfynom addasu'r cwestiynau ar waith, a'u hail-ffurfio yn ystod y broses er mwyn dyfeisio'r cwestiynau i'r unigolion yn lle eu newid yn gyfan gwbl. Erbyn i ni gyrraedd y cwestiynau mwyaf dylanwadol ar yr ymchwil, roedd y plant yn fwy cyfforddus ac yn ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau.

### **Astudiaeth gwers 1**

Roedd cyflwyniad y wers gyntaf bach yn wahanol i'r ail. Cafodd y plant eu hysgogi gan yr eitem newydd oedd yn y dosbarth, sef y fasged siopa, ac roedd llawer o blant am ddyfalu beth oedd yn y fasged wedi iddyn nhw allu gweld rhywbeth gwyrdd yn ymddangos dros y top. Ar ôl iddynt ddyfalu roedd yr athrawes yn dadlennu'r fasged i ddangos iddynt. Un wrth un dangosodd yr athrawes pob llysieuyn yn y fasged gan ofyn am enw'r llysieuyn, ei adrodd a'u hail adrodd. Yna, dilynwyd arfer y dosbarth hwnnw gan ganu cân i'w helpu cofio:

*M am Moron, M am Moron, M.. M.. M.. M am Moron.*

Roedd pawb yn y dosbarth yn ymuno mewn ar i siantio ac yn mwynhau. Roedd dau allan o'r tri disgybl a chafodd eu harsylwi yn cymryd rhan heb ofyn gan yr athrawes. Roedd plentyn 3 yn swil iawn ar y carped, a phan gafodd ei ofyn am ateb, ni chynigwyd unrhyw ymateb. Roedd ei iaith corff yn dangos nad oedd llawer o gymhelliant ganddo, er ei fod yn ymuno mewn ar y llafaredd grŵp. Dangosodd plentyn 2 ei allu i enwi llysiau pan gynigwyd taw 'carrot' oedd y llysieuyn dangoswyd gan yr athrawes. Dangosodd plentyn 2 ei gynnydd yn hwyrach ymlaen yn y cyflwyniad pan gynigwyd taw 'tato' oedd y daten dangoswyd gan yr athrawes. Mae ei ddefnydd o'r Saesneg mewn ffordd Gymreig yn dangos ei frwdfrydedd yn y wers ac yn dangos ei broses o feddwl ar ôl ddeall nad oedd Miss eisiau'r enw Saesneg. Roedd plentyn 1 yn swil yn ymateb ar y carped, serch hynny, clywodd yr arsylwr mwmian o lythyron gyntaf y gair 'winwns' pan gafodd ei ofyn am y llysieuyn hwnnw.

Yn y dasg ffocws roedd yn 6 o blant, gan gynnwys y tri phlentyn a chafodd eu harsylwi. Yn rhan yma'r ymchwil gwelon ni ymatebion oedd yn fwy o fudd i'r ymchwiliad. Roedd maint y grŵp yn rhoi mwy o gyfle i'r plant glywed y brawddegau cyn iddynt adrodd ei hun. Ar ôl i'r athrawes adrodd y cyfarwyddiadau ac enghreifftio brawddeg ddisgwyliedig, aeth y plant ati un wrth un i adrodd eu brawddegau. Roedd plentyn 1 yn gweithio fel pâr gyda rhywun o'r un gallu, a dangosodd annibyniaeth lwyr wrth adrodd enwau'r llysiau. Adroddwyd ambell waith enw pob llysieuyn, a chynigwyd o'r man cychwyn y frawddeg gywir yn y Gymraeg. Erbyn cyrraedd yr ail frawddeg adroddwyd yn hyderus;

"Prynais i Cenhinen"

heb unrhyw gymorth o'r athrawes. Roedd y gwrthrychau gweledol (y llysiau) yn rhoi cymorth i'r plentyn wrth adrodd y frawddeg.

Roedd plentyn 2 yn dangos ei allu trwy gydol y dasg ffocws i ddysgu o brofiad a defnyddio'r hyn a rhoddwyd gan yr athrawes i'w helpu. Ar ddechrau'r dasg roedd plentyn 2 yn cynnig yr eirfa

gywir yn y Gymraeg, er nad oedd yn ffurfio'r frawddeg. Ar ôl i blentyn 2 clywed yr hyn a ddywedwyd gan blentyn 1 llwyddodd i ffurfio'r frawddeg yn gywir yn y Gymraeg. Heb unrhyw gymorth o glywed eraill yn adrodd y frawddeg cynigwyd y frawddeg;

"Prynais i Swede".

Cymeradwyodd yr athrawes ei gynnig a chywirodd ei eirfa, serch hynny, yn amlwg erfinen oedd un o'r geiriau mwyaf anghyfarwydd i'w gofio, felly dangoswyd ei barodrwydd a'i hyder i gynnig ateb, heb wir gwybod yr ateb.

Roedd plentyn 3 yn cyfathrebu mwy yn y dasg ffocws, er ei fod yn ymateb yn Saesneg yn aml pan ofynnwyd am enwau'r llysiau. Roedd ei ddysgu yn amlwg trwy gydol y dasg am ei fod yn datblygu i gynnig yr eirfa Cymraeg yn annibynnol erbyn y diwedd. Gyda chymorth yr athrawes i ddechrau'r frawddeg llwyddodd i adrodd;

"Prynais i tatws"

erbyn diwedd y wers. Mae hi'n amlwg taw tatws oedd y gair mwyaf cyffredin i bob un o'r plant arsylwyd.

Yn y grŵp ffocws, dim ond y tri a chafodd ei arsylwi oedd yn bresennol. O'r nodiadau (atodiad 7) gwelwyd bod pob un wedi mwynhau'r gweithgareddau o'r wers. Honnwyd plentyn 3 taw 'tatws' oedd y gair dysgwyd yn y wers, a honnwyd plentyn 1 taw 'tatws' oedd y gair newydd, er ei fod yn ymwybodol o'r gair o'r blaen. Dywedodd plentyn 2 yn hyderus taw;

"Swede..."

A: e..e..e..

"Erfin"

oedd y gair newydd dysgwyd heddiw. Dangosodd plentyn 2 ei fod eisiau plesio'r athrawes trwy ddangos ei fod yn cofio'r llysieuyn mwyaf anodd. Honnodd pob un ei fod yn buddio yn fawr iawn o glywed Miss yn ailadrodd geiriau newydd yn gyson, wrth geisio dysgu geirfa newydd. Dywedwyd hefyd mai clywed yr eirfa mewn brawddegau, a'i defnyddio trwy ddynwared proses yn eu helpu i gofio geirfa newydd.

## **Astudiaeth gwers 2**

Yn debyg i'r wers gyntaf roedd gofyn i'r plant dyfalu beth sydd yn y fasged siopa. Canwyd cân;

*Beth sydd yn y fasged siopa?... Dewch i ni gael gweld...*

cyn i'r athrawes dechrau dadlennu'r cynhwysion. Roedd ymateb y plant yn dda, a dyfalwyd yn synhwyrol. Yn union fel y wers gyntaf, dangosodd yr athrawes un wrth un pob llysieuyn yn y fasged siopa. Cyflwynodd yr athrawes yr eirfa Cymraeg, yr eirfa Saesneg, a'r eirfa Cymraeg eto;

*Moron, Carrots, Morron.*

Yna gofynnwyd i'r dosbarth adrodd yn nôl;

A: *Beth ydyn nhw? M..*

*Moron, M.. Moron, M.. Moron*

Felly, defnyddiodd yr athrawes Saesneg er mwyn asesu os yw'n helpu dealltwriaeth a defnydd y plant o'r eirfa newydd. Nid oedd disgwyl i'r plant defnyddio'r Saesneg yn ystod y wers o gwbl, ond defnyddiwyd i sicrhau dealltwriaeth a chysylltiadau i'w profiadau blaenorol.

Ar y carped dangosodd plentyn 1 ei fod yn ymwybodol o'r eirfa Cymraeg yn hyderus iawn pan gynigwyd 'moron' a 'tatws' pan ddangosodd yr athrawes y llysiau hynny. Roedd ei ffurfiant a'i ynganiad o'r eirfa yn berffaith, sydd yn dangos ei fod yn gyfarwydd gyda'r eirfa ac yn ei ddefnyddio tu hwnt i'r dosbarth.

Dengys gan blentyn 2 ei fod yn adnabod y llysiau ond yn fwy cyfforddus gyda'r Saesneg pan ymatebwyd 'swede' yn lle erfinen a 'tatoe' yn lle taten. Roedd rhaid i'r athrawes cynnig dechrau'r gair cyn iddi gynnig ar yr eirfa Cymraeg, a gyda chymorth llwyddwyd i ynganu 'erfinen'. Dangosodd bod y defnydd o'r Saesneg wedi cymhlethu plentyn 2. Serch hynny, pan ofynnwyd gan yr athrawes i'r dosbarth 'Pa lysieuyn yw hwn?' (wrth godi erfinen o'r fasged), nid oedd unrhyw un o'r plant yn gallu ei henwi yn Gymraeg nag yn Saesneg. Cofiodd plentyn 2 y gair newydd Saesneg cyn y gair newydd yn y Gymraeg, sydd yn ddiddorol iawn.

Dangosodd plentyn 3 llawer o frwdfrydedd yn y wers, yn barod i gymryd rhan ym mhob rhan o'r dasg. Fe alwodd winwns gan ei enw Saesneg yn hyderus, ac ar ôl i'r athrawes cynnig taw 'w..' oedd dechrau'r gair Cymraeg cynigwyd 'wnion'. Dangosodd ei fod yn gallu enwi'r llysiau ond roedd angen bach o gymorth gyda'r eirfa Saesneg gyda'r llysiau mwy cyfarwydd, a gyda'r rhai cysidron ni'r anoddach, nid oedd ganddo ymateb Cymraeg. Llwyddodd i gynnig 'winwns' ar ôl meddwl ym mhellach.

Yn y dasg ffocws dangosodd plentyn 3 rhagor o gynnydd wrth ynganu'r Gymraeg lle dechreuodd i ffurfio brawddeg yn Gymraeg gyda chymorth yr athrawes.

"Prynais i potato"

Er nad oedd wedi cynnig ar yr eirfa yn Gymraeg, roedd yr arsylwr wedi ei gymeradwyo erbyn diwedd y dasg am ei ynganiad o'r frawddeg. Roedd clywed y frawddeg o'i gyd-ddisgyblion wrth iddynt adrodd un wrth un beth brynon nhw yn y siop yn helpu iddo gofio.

